PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 158 | Rhif 28 | Gorffennaf 10, 2025 | 50c.

# EGLWYS JERWSALEM PORTH TYWYN

Ar Sul 1 Mehefin cynhaliwyd oedfa arbennig ar achlysur ymddeoliad ein gweinidog, y Parchedig Christopher Owen. Llywydd y cyfarfod oedd ein cyn weinidog, y Parchedig Meirion Evans, a braf hefyd oedd cael cwmni rhagflaenydd Mr Owen, y Parchedig Ryan Thomas. Wedi i Mr Evans ddarllen o'r ysgrythur ac arwain y gynulleidfa mewn gweddi, cafwyd cyfle i ddangos ein gwerthfawrogiad am weinidogaeth ymroddgar a ffyddlon dros y ddeng mlynedd olaf hyn, a hynny trwy enau dau ddiacon a dau o wŷr amlwg byd cyfraith, sef Iwan Jenkins ar ran Jerwsalem ac Owen Thomas CB ar ran aelodau Seion sydd bellach yn addoli yma yn Jerwsalem.

Fel arwydd pellach o'n diolch cyflwynodd y ddeuddyn anrhegion i Mr Owen ac ymatebodd yntau â geiriau tyner a theimladwy gan ddiolch am bob cydweithrediad, pob teyrngarwch charedigrwydd a brofodd ar hyd ei weinidogaeth yn ein plith. Rhoddwyd cyfle i blant yr eglwys hefyd ddangos eu cariad a'u hoffter hwythau o'r gweinidog, a hynny yn effeithiol iawn trwy gyfrwng cerdd a chân. Yna, â'r awyrgylch yn fwy dwys hyd yn oed nag arfer, gweinyddwyd y cymun gan y Parchedig Meirion Evans.

Yn dilyn, cafwyd cyfle yn y festri i fwynhau cymdeithas gynnes ynghyd â danteithion wedi eu paratoi gan wragedd yr eglwys. Yma hefyd gwnaeth y plant, unwaith eto ddangos eu gwerthfawrogiad a chyflwyno eu hanrhegion unigryw hwythau i'w gweinidog.

Pob dymuniad da i chwi Mr Owen, mwynhewch eich ymddeoliad, diolch eto am eich gwasanaeth gwerthfawr a bendith Duw fo arnoch.

**Stephen Kohut**





# Cyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr

*Adroddiad pellach o'r hyn ddigwyddodd.*

Cychwynnwyd ail ddiwrnod Cyfarfodydd Blynyddol yr Undeb yn y Nant gydag addoliad ac Astudiaeth Feiblaidd gan Dafydd Roberts, Trefor. Y tro hwn fe aeth â ni i'r hanes cyffrous yn Llyfr yr Actau pennod 8 lle mae Phillip yn cyfarfod yr eunuch o Ethiopia. Dyma'r cyfnod pryd yr oedd erledigaeth yn cychwyn a'r Cristnogion yn dilyn gorchymyn yr Iesu i wneud disgyblion ac i rannu'r newyddion da. Gofynnodd Phillip i'r Ethiop – oedd yn darllen o Lyfr y Proffwyd Eseia – 'a wyt ti yn deall yr hyn rwyt yn ei ddarllen?' Pan gyfaddefodd nad oedd, aeth ati Phillip ati i esbonio ystyr y geiriau yn Eseia, mai sôn yr oeddent am Iesu. Ym mhob cyfnod mae angen pobl i esbonio i eraill beth yw sylfeini Cristnogaeth. Rhannodd Philip y newyddion da a chredodd yr Ethiop, a dyma a wnaeth y Cristnogion cynnar dro ar ôl tro. A'r newyddion da yw Iesu Grist, ei fywyd, ei farwolaeth a'i atgyfodiad. Iesu yw gobaith y byd. Dywedodd Pedr yn ei bregethau, 'Lladdasoch Awdur bywyd, ond cyfododd Duw ef oddi wrth y meirw. O hyn yr ydym ni'n dystion.' (Actau 3.) A hefyd, 'Ac nid oes iachawdwriaeth yn neb arall, oblegid nid oes enw arall dan y nef, wedi ei roi i'r ddynolryw, y mae'n rhaid i ni gael ein hachub drwyddo.' (Actau 4) Ein cyfrifoldeb ni heddiw yw rhannu'r newyddion da hwn yng Nghymru. Canwyd 'Wele cawsom y Meseia' gan Dafydd Jones, Treborth i gloi.



*parhad ar dudalen 2*

# Cyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr – *parhad*



### Adroddiad y trysorydd

Wrth wrando ar adroddiad Geraint Rees roeddem yn teimlo ein bod mewn dwylo profiadol a doeth sy'n rhoi hyder inni fel aelodau o'r Undeb. Rhannodd gyda ni yn gryno'r sefyllfa ariannol gan nodi fod yr Undeb mewn man iach, gyda buddsoddion o £15.8 miliwn, er bod y cyfalaf yn codi a gostwng yn gyson gyda'r fasnach stoc. Pwysleisiodd yr angen i ni ddefnyddio'r cyfalaf yn greadigol er mwyn adeiladu gwaith Teyrnas Dduw. Rydym ers tro byd yn y dyddiau glawog ac mae'n angenrheidiol inni ddefnyddio'r arian sydd gennym i hyrwyddo prosiectau newydd cenhadol ac adeiladol. Er bod rhai eglwysi wedi gwneud cais am arian trwy'r Cynllun Arloesi a Buddsoddi anogwyd rhagor o gynulleidfaoedd i fod yn fentrus ac i ymgeisio am nawdd. Gwych oedd clywed bod uchafswm y nawdd trwy'r cynllun hwn yn codi i £20,000 y flwyddyn fydd yn ei gwneud yn haws i gyflogi gweithwyr.

Pan ddaeth Apêl Ffynhonnau Byw i ben y llynedd roedd oddeutu £71,000 wedi ei godi tuag at y gwaith yng Ngholombia. Diolchwyd i'r eglwysi am eu hymroddiad yn codi arian yn ystod y flwyddyn.

Yn dilyn yr adroddiad cafwyd trafodaeth. Un o'r pynciau gododd oedd y posibilrwydd i'r Undeb roi grantiau i eglwysi i gynnal a chadw eu hadeiladau. Atebodd y trysorydd yn ddigamsyniol nad oedd hyn yn bosib oherwydd, gyda 350 o gapeli, byddai'r holl gyfalaf yn diflannu mewn amser byr. Diolchwn i Geraint Rees am ei waith cyson ar ein rhan.

### Penderfyniadau

Yn dilyn adroddiad y pwyllgor gweinyddol fe gyflwynwyd 4 penderfyniad pwysig i'r gynhadledd sef; 1. Palestina. 2. Cydweithio gydag A Rocha. 3. Rhaglen genhadol plant a theuluoedd. 4. Croesawu eglwysi newydd. Fe gyfeiriaf yma at ddau o'r uchod.


Roedd y penderfyniad ar Balestina yn ymateb i'r erchyllter trychinebus sy'n digwydd yno dan law Llywodraeth Israel ac yn gofyn i lywodraeth y Deyrnas Gyfunol i roi'r gorau i gefnogi'r rhyfel yn erbyn y Palestiniaid. Y mae'r bomio a'r lladd digydwybod sydd nawr yn digwydd yn Gaza yn gwbl anghymesur a'r hyn ddigwyddodd yn Hydref 2023. Cynigwyd y penderfyniad yn rymus gan Guto Prys ap Gwynfor a'i eilio gan Tom Evans. Cafwyd peth trafodaeth ac fe newidiwyd rhyw ychydig ar y geirio oedd ym marn rhai yn ei wanychu. Yna, fe dderbyniwyd y penderfyniad diwygiedig.

Penderfyniad pwysig arall oedd yr un am 'raglen genhadol plant, ieuenctid a'u teuluoedd'. Cynigiwyd ac eiliwyd hwn gan Owain Davies a Dylan Rhys ar ran yr Adrannau Cenhadaeth a Thystiolaeth. Gofynnwyd i'r Undeb ystyried lansio rhaglen i hyrwyddo blwyddyn o weithgaredd cenhadol yn ymwneud yn benodol â theuluoedd gan ddarparu adnoddau i'r gwaith. Hefyd, gofynnwyd iddynt ystyried cyflogi cydlynydd ar gyfer y rhaglen. Cafwyd trafodaeth gadarnhaol. Awgrymwyd ymhellach y dylid cael blwyddyn o rannu syniadau, pendroni, gweddïo a gosod cynllun clir yn ei le cyn symud ymlaen. Derbyniwyd y penderfyniad yn unfrydol.



### Gwerthfawrogiad

Mynegwyd gwerthfawrogiad ar ein rhan o waith Dyfrig Rees fel Ysgrifennydd Cyffredinol yn ystod y 7 mlynedd diwethaf gan Dewi Myrddin Hughes. Diolchwyd iddo am ei arweiniad doeth i ni fel Annibynwyr ac am ei amynedd mewn cyfnod eithriadol o anodd. Ni fyddwn byth yn anghofio cyfnod Covid a'r profiad o fod o dan wasgfa nad oedd gennym unrhyw reolaeth arno a'r arweiniad a gafwyd. Dymunwyd yn dda iddo ef a Mandy yn ystod eu hymddeoliad a chyflwynwyd rhodd iddo fel arwydd o'n gwerthfawrogiad.



### Darlith y Gymdeithas Hanes

Testun y ddarlith hanes a draddodwyd gan Dr Aled Eurig ac a lywyddwyd gan Dr Geraint Tudur oedd, 'Ar ôl y drin, yr ymgais am heddwch: cefndir Deiseb Heddwch Merched Cymru'. Ymdriniodd y darlithydd yn feistrolgar gyda'i destun gan rannu o'i wybodaeth eang o'r cyfnod rhwng y ddau Ryfel Byd. Rydym wedi clywed llawer am y ddeiseb heddwch yn ddiweddar ond braf oedd dod i ddysgu mwy am gyd-destun y cyfnod hwnnw. Wrth draethu aeth â ni i fwy nac un cyfeiriad gan dynnu ein sylw at y Mudiad Heddwch, David Davies, Llandinam; Gwilym Davies; Cyngor y Cenhedloedd a gweledigaeth Thomas Rees, prifathro Coleg Bala-Bangor.

Roedd cysgod y Rhyfel Byd Cyntaf yn drwm ar y gymdeithas gan fod 35 mil o ddinasyddion gwledydd Prydain wedi eu lladd, a'r awydd am heddwch yn ddwfn. Codwyd cofebau cyhoeddus ym mhob cwmwd er cof am y rhai a laddwyd. Yn naturiol roedd y mamau a'r gwragedd a gollodd anwyliaid am hybu heddwch, mynegiant o hyn oedd y ddeiseb gan fenywod Cymru a lofnodwyd gan dros 400,000 o fenywod. Cafwyd trafodaeth i ddilyn a diolchwyd i'r siaradwr gan y llywydd am ei ddarlith ardderchog.

*Bydd rhagor am hanes Cyfarfodydd yr Undeb yn Nant Gwrtheyrn yn y rhifyn nesaf o'r* Tyst.



Yr Adran Gydenwadol
GORFFENNAF 10 2025 RHIF 228

# Datblygiad Cyffrous yn Hanes Cynnal a'r Stafell Fyw

Bydd llawer o eglwysi'n cofio Cyngor Alcohol a Chyffuriau Cymru, sef y corff a grëwyd drwy gyfuno sawl grŵp lleol a fu'n gweithio o blaid dirwest ar hyd yr ugeinfed ganrif. Aeth drwy sawl cyfnewidiad dros y degawdau, gan brofi llwyddiant weithiau a rhwystredigaeth ar adegau eraill. Diolchwn wrth gofio am yr ymgyrchu lleol pan lofnododd llawer o aelodau eglwysi'r 'Pledge', yn tynnu llw i ymwrthod yn llwyr ag alcohol yn ystod y degawdau cynnar. Yn ystod y cyfnod yn dilyn yr Ail Ryfel Byd, bu ymgyrchu drwy ymweld â chanolfannau ieuenctid ac ysgolion, yn ceisio dangos beth oedd sgileffaith alcohol. Ceisiwyd rheoleiddio'r farchnad alcohol a bu llawer o weinidogion yn ymgyrchu yn erbyn agor tafarndai ar y Sul. Erbyn diwedd yr ugeinfed ganrif roedd pob sir yng Nghymru yn caniatáu gwerthu alcohol bob dydd o'r wythnos, ac aeth yfed diodydd alcoholig yn arfer cyffredin nes bod y diodydd hynny i'w gweld ar werth ar feysydd prif wyliau diwylliannol Cymru.

Erbyn troad y ganrif, roedd gwerthu cyffuriau yn rhemp, a'r gwasanaethau meddygol yn cydnabod dibyniaeth ar alcohol a chyffuriau fel salwch. Bellach roedd y Cyngor Alcohol a Chyffuriau wedi cyflogi Wynford Ellis Owen, yr actor a'r diddanwr, fel prif weithredwr, ac un o'i gynlluniau newydd ef oedd sefydlu gwasanaeth y Stafell Fyw. Llwyddwyd i logi nifer o ystafelloedd yn adeilad Coleg y Bedyddwyr, Caerdydd, a bu'r gweithgaredd yn hynod lwyddiannus. Roedd y cwnsela yno yn rhad i'r clientiaid, a braf oedd cofnodi llwyddiant y gwaith. Bydd darllenwyr *Cenn@d* yn cofio 2008 fel blwyddyn yr argyfwng ym myd bancio. O ganlyniad, fe wnaeth llywodraethau'r byd dorri'n sylweddol ar y gwasanaethau ac ni fu modd i'r Stafell Fyw dderbyn nawdd o'r ffynonellau oedd wedi addo cefnogi'r fenter. Daeth diwedd y daith i waddol ariannol y Cyngor Alcohol, a throsglwyddwyd y Stafell Fyw i ofal mudiad CAIS, gyda'i ganolfan yng ngogledd Cymru. Symudodd y Stafell Fyw i rannu adeilad â chorff arall oedd o dan ofal Adferiad Recovery – cyfuniad o dair elusen arall – yng ngorllewin Caerdydd, gan barhau â'r gwasanaeth i raddau sylweddol. Eto, nid oedd amodau gwahanol yn y ganolfan honno, a bu chwilio am ateb amgenach.

Ym 2023 dechreuwyd meddwl am bosibiliadau newydd, a phenodwyd ymddiriedolwyr ychwanegol, gan gynnal y freuddwyd o sefydlu gwasanaeth y Stafell Fyw yn ddigidol. Hefyd, roedd gwasanaeth Cynnal wedi ei sefydlu gyda'r Eglwys yng Nghymru, yr Eglwys Bresbyteraidd, Undeb yr Annibynwyr ac Undeb Bedyddwyr Cymru yn cyfrannu at gefnogi gwaith Cynnal er mwyn cynnig gwasanaeth Wynford Ellis Owen i gynorthwyo clerigwyr, gweinidogion, gweithwyr Cristnogol a'u teuluoedd oedd yn cael eu heffeithio yn sgil cam-drin sylweddau neu ymddygiadau niweidiol eraill.

Roedd angen canolfan newydd, a daeth y Stafell Fyw a Cynnal o dan gronglwyd y Cyngor Alcohol a Chyffuriau, a hynny yn rhai o ystafelloedd cefn capel y Crwys yn Ffordd Richmond, Caerdydd. Dymuna'r Cyngor ddiolch i aelodau Eglwys y Crwys a'i harweinydd Thomas Ellis Williams. Hefyd, bu Henaduriaeth Morgannwg Llundain yn hael eu cefnogaeth i'r eglwys fel y gellid addasu'r ystafelloedd hyn i alluogi Wynford Ellis Owen, prif weithredwr y Cyngor, i gynnal sesiynau gyda'r clientiaid mewn man hwylus. Bydd y sawl sy'n gyfarwydd ag ardal y Rhath yn gwybod bod capel y Crwys bron gyferbyn â Choleg y Bedyddwyr.

Gellir cael manylion llawn y gwasanaethau a gynigir wrth ddarllen y deunydd ar y gwefannau isod:
www.cyngor-adferiad.org (Cymraeg)
www.stafell-fyw.uk (Cymraeg)
www.cynnal.uk (dwyieithog)
www.recovery-council.org (Saesneg)
www.living-room.uk (Saesneg)

A dyma fanylion cyswllt Wynford Ellis Owen, ein prif weithredwr: Eglwys y Crwys, 77 Heol Richmond, Caerdydd CF24 3AR; ffôn: 07796464045; ebost: wynford@recovery-council.org

Diolch i nifer o unigolion ac eglwysi am eu cefnogaeth ariannol a defosiynol dros y blynyddoedd. Gobeithiwn y gwelwn gynnydd yn nifer y clientiaid ac y bydd llawer yn gwella o'r ddibyniaeth sy'n goddiweddyd cynifer o bobl bellach. Byddaf i fel cadeirydd y Cyngor, ynghyd â'r Parchg Ifan Roberts, cadeirydd Cynnal, ac Arwel Ellis Owen, cadeirydd Cyfeillion y Stafell Fyw, yn hapus i ychwanegu mwy o wybodaeth am ein cynlluniau ym mhob modd posibl. Mae ein tîm ymddiriedolwyr yn cynrychioli academyddion, cyfreithiwr, pobl sy'n gweithio fel clinigwyr ac arbenigwyr ar wasanaethau digidol yn bwrw ati i ymestyn y gwaith mewn sawl ffordd.

Wrth gwrs, bydd Wynford Ellis Owen, ein prif weithredwr, ar gael i ymateb i bawb sy'n dymuno cael mwy o wybodaeth ac arweiniad ar nod y gwaith. Cynhelir lansiad swyddogol i'r cynllun yng nghyfnod tymor yr hydref. Gweddïwn y bydd Duw yn ein bendithio ac y bydd eglwysi'r holl enwadau yng Nghymru a thu hwnt yn uniaethu â'n gwaith a'n gweledigaeth.

Diolch am bob cefnogaeth.

*Denzil Ieuan John, Cadeirydd*
*Y Cyngor ar Alcohol a Chyffuriau Eraill*

## Ogi Ogi Ogwr

Diwedd Mehefin cynhaliwyd diwrnod i'r teulu ym Mhen-y-bont ar Ogwr, sef gŵyl Ogi Ogi Ogwr, a hynny dan nawdd Menter Iaith Pen-y-bont. Roedd cyfle i osod stondinau yn y digwyddiad, a phenderfynodd y Parch. Dylan Rhys, gweinidog Gofalaeth Glannau Ogwr, osod arddangosfa'n dangos gwaith yr eglwys Gymraeg yn y dref. Braf gweld tystiolaeth Gristnogol mewn digwyddiad o'r fath.



# Gair o gyfarchiad a rannwyd gan Owain Llŷr Evans yn Undeb y Bedyddwyr, Llundain

Creadur dinesig ydwyf; wrth fy modd yn y ddinas hon, a dinas Caerdydd yr un modd, ond dw i am fynd â chi o Lundain am ychydig, i bentre Mathern, heb fod ymhell o Gas-gwent. Awn o Eglwys Gymraeg Canol y Ddinas i Eglwys Sant Tewdric a gweld y ffenest sydd ym mhen draw ystlys ddwyreiniol yr eglwys. Gwelir ffenestri tebyg mewn sawl man arall yng Nghymru: Caerwys, Llanfair Cilgedin, Nercwys, Llanfair Dyffryn Clwyd.

Ffenestri ydynt a grëwyd allan o ddarnau chwâl; ffenestri a grëwyd yn newydd gan ddefnyddio darnau o hen hen ffenestri – rhai o'r darnau'n dyddio 'nôl i'r bymthegfed ganrif. Wrth i'r hen hen ffenestri hyn dorri neu gael eu torri, casglwyd a diogelwyd y darnau a chrëwyd ffenest newydd ohonynt.

Mae'r ffenestri hyn yn wirioneddol hardd. Anniben efallai; darniog, bratiog o bosib, ond hardd.

Y darnau chwâl hyn ydyn ni, y gwahanol enwadau a thraddodiadau, pwysleisiau a thueddiadau a gynrychiolir yma heddiw; ein gwaith a'n gweinidogaeth, ein gwasanaeth a'n cenhadaeth. Rydym, ti a minnau, a phobl debyg ac annhebyg i ni yn gweithio a chydweithio i wireddu'r weddi fawr: 'Deled dy deyrnas ... Gwneler dy ewyllys'. Pitw bach yw ein cyfraniad ni fel unigolion; bychan bach cyfraniad pob enwad ac eglwys, ond o'r manylion tardd yr hanfodion. Duw'r manylion yw ein Duw ni. Duw yn sylwi ar y manion, yn eu gwerthfawrogi, yn eu defnyddio, eu trysori. Pa mor fychan bynnag ein cyfraniad ninnau i ddyfodiad Teyrnas Dduw, bydd y darn hwnnw o gyfraniad yn rhan annatod o ffenest liw'r Deyrnas, gan fod y cyfraniad hwnnw wedi bod yn gwbl allweddol i'w dyfodiad hi, ac yn allweddol i'w pharhad tragwyddol hi.

*The symphony all bits and pieces … no one would understand … no one … no one.*

Edward Elgar (1857–1934) piau'r geiriau. Roedd cancr bellach wedi cael gafael tyn arno, ac yntau'n sylweddoli y buasai'n marw cyn medru cwblhau'r symffoni yr oedd ar y pryd yn gweithio arni. Roedd 'na ddarnau brau o'r drydedd symffoni hon yn barod ganddo – *all bits and pieces* – dyna'r cyfan. Bu farw ym 1934 gan adael dim ond y darnau hynny. Chwe deg o flynyddoedd wedi marw Elgar, cafodd y cerddor Anthony Payne y cyfle – a'r cyfrifoldeb arswydus – o dynnu *bits and pieces* Elgar at ei gilydd a gorffen y symffoni anorffenedig. A gwnaethpwyd hynny yn 1997. Ym mis Chwefror 1998 perfformiwyd yr Elgar/Payne Symphony No 3 gan gerddorfa Symffoni'r BBC yn y Royal Festival Hall, Llundain.

Symffoni anorffenedig, *all bits and pieces*, yw ein gweinidogaeth ninnau fel unigolion, ac fel eglwys, eglwysi, fel enwadau ac amrywiol draddodiadau Cristnogol. Ond mae Duw – y cerddor tragwyddol – ar waith yn tynnu'r darnau digyswllt at ei gilydd a chreu cyfanwaith – campwaith – symffoni o fendith, tangnefedd a chyfiawnder.

Yn ei hamrywiaeth y gwelir gogoniant yr Eglwys. Mae angen mwy nag un nodyn i wneud miwsig, a rhagor nag un lliw i dynnu darlun. Yn amrywiaeth y nodau y ceir y felodi. Mewn llun, nid un o'i liwiau a'i gwna'n brydferth, ond yr holl liwiau mewn cynghanedd fawr, a'r cyfuniad yw prydferthwch. Ein hamrywiaeth mewn cynghanedd, dyna yw gwir brydferthwch yr Eglwys fawr. Y prydferthwch hwnnw yw addurn a chadernid tarian ffydd. Boed bendith ar y cyfarfodydd hyn, ac ohonynt, er clod i'r hwn sydd i bawb ohonom yn Arglwydd ac yn Waredwr.

# Arddangos Beiblau Prin yng Nghymru – profiad personol

Llongyfarchiadau i Olygyddion *Cenn@d* (Rhifyn 226) am lwyddo i gynnwys hanes tair arddangosfa o Feiblau prin yng Nghymru: y ddau gopi o'r 'Beibl Mawr' Saesneg ochr yn ochr â'i gilydd yn y Llyfrgell Genedlaethol, y copi o Feibl William Morgan a gyflwynodd i Abaty Westminster yn 1588 sydd ar hyn o bryd yng Nghadeirlan Tyddewi, a'r newyddion da bod y Tŷ Mawr Wybrnant, ei gartref, wedi'i adnewyddu a'i agor eto i ymwelwyr. Gwaith pleserus a chynhyrfus yn ddiau fydd ceisio ymweld â'r tair arddangosfa yn ystod yr wythnosau nesaf yma.


Yn sgil yr hyn a gyhoeddwyd am y copi o Feibl William Morgan sy'n cael ei arddangos yng Nghymru am y tro cyntaf, carwn gywiro un ffaith sydd wedi'i chyhoeddi yn Cymru Ar-lein, y *Western Mail*, ac yn awr yn *Cenn@d*, sef mai unwaith yn unig o'r blaen y defnyddiwyd y copi arbennig hwn y tu allan i'r Abaty. Adroddir i hynny ddigwydd yn 1988 pan ddathlwyd pedwar can mlynedd y Beibl ac y cyhoeddwyd y *Beibl Cymraeg Newydd*. Yr achlysur oedd gwasanaeth arbennig o ddathliad yn Eglwys Gymraeg Sant Benet ymhellach draw ar lan afon Tafwys.

Ond y mae gennyf brawf personol bod y copi hwn hefyd wedi'i ddefnyddio mewn gwasanaeth yn eglwys enwog Saint Martin-in-the-Fields ddydd Iau, 9 Rhagfyr 1954, a hynny mewn gwasanaeth a drefnwyd dan nawdd Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion i goffáu tri chant a hanner o flynyddoedd er ei farwolaeth yn 1604. Mae copi o raglen y gwasanaeth nodedig hwn o'm blaen yn awr a gwelaf ynddi fod Syr John Cecil-Williams, Ysgrifennydd y Cymmrodorion, wedi darllen y llith gyntaf, sef Ecclesiasticus 44:1–15, o Feibl 1588, a Syr Wynn Wheldon, eu Llywydd , wedi darllen yr ail lith, sef 1 Pedr 2:1–10. Traddodwyd yr anerchiad gan yr Athro Emeritus T. H. Parry-Williams. Mae'r achlysur yn fyw yn fy nghof gan mai fi, yn llencyn bron yn un ar bymtheg oed, a ddewiswyd i gludo'r copi hwn o'r Beibl drwy'r eglwys a'i gyflwyno i Ficer yr Eglwys, y Parchedig L. M. Charles-Edwards, disgynnydd i Thomas Charles a Lewis Edwards, iddo ei osod yn y pulpud. Ceir llun ohonof yn cyflawni'r gorchwyl hwn yng nghyfrol T. I. Ellis, *Crwydro Llundain*, a cheir recordiad o'r gwasanaeth yn Archif Sain y Llyfrgell Gendlaethol. Bûm yn sôn am y profiad hwn ar *Post Prynhawn* pan gyhoeddwyd bod y copi hwn o'r Beibl wedi cyrraedd Tyddewi.

*John Tudno Williams*

# Llyfr y Pregethwr

**Yn ystod y tymor hwn byddwn yn astudio Llyfr y Pregethwr gyda'n gilydd dan arweiniad y Parch. Ddr Alun Tudur, gan ddefnyddio cyfrol y diweddar Gareth Lloyd Jones, *Dehongli Bywyd Ruth a Llyfr y Pregethwr* yn ganllaw.**




**Astudiaeth 20: Ein cartref bythol**

**Llyfr y Pregethwr 12**

Mae'r awdur bellach yn hen ac wedi cael cyfle i fyfyrio ar ei brofiadau. Daeth yr amser iddo grisialu ei feddyliau a throsglwyddo ffrwyth ei fyfyrdod i'r genhedlaeth nesaf. Yn dilyn ei anogaeth i ŵr ifanc i fwynhau bywyd, cyngor olaf y Pregethwr yw iddo gofio'i Greawdwr. Caiff y gorchymyn i 'gofio' Duw, sy'n golygu cydnabod ei gymorth mewn cyfyngder, gwrando ar ei lais a gwneud ei ewyllys, le amlwg yn y Gyfraith (gw. Deuteronomium 8:11–20). Dyletswydd y llanc yw cofio Duw cyn iddi fynd yn rhy hwyr, cyn iddo golli blas ar fyw am fod ei olwg yn dirywio a threialon yn pentyrru'n ddirybudd, fel cymylau'n 'dychwelyd ar ôl y glaw' (12:1–2).

Esboniad posibl o weddill y paragraff cyntaf yw mai disgrifiad o'r corff dynol yn heneiddio sydd yma (12:3–5). 'Ceidwaid y tŷ' yw'r coesau sy'n dioddef o gricymalau; 'y dynion cryf' yw'r breichiau'n colli eu nerth; y merched yn methu malu yw'r dannedd sy'n prinhau; 'y rhai sy'n edrych trwy'r ffenestri' yw'r golwg yn dirywio; awgrymir byddardod wrth i gân yr adar 'ddistewi'. Cyfeiriad yw'r 'pren almon', sy'n troi o binc i wyn wrth aeddfedu, at wallt yn britho. Y ceiliog rhedyn, sy'n 'ymlusgo'n feichus', yw'r henoed sy'n cael eu caethiwo gan lesgedd.

Arwyddion yw'r rhain i gyd fod rhywun yn nesáu at ddiwedd oes. Gan ei fod 'ar fynd i'w gartref bythol', daw'r galarwyr proffesiynol ynghyd, yn barod i roi llais i alar y gymuned. Mae'n werth darllen fersiwn beibl.net o'r bennod hon gan ei fod yn bwrw goleuni amgen ar rai adnodau.

Symbol arall sy'n gysylltiedig â marwolaeth ym meddwl yr awdur yw dinistr celfi cyffredin (12:6): llestr aur yn malu am fod y llinyn arian sy'n ei ddal wrth y nenfwd yn torri; piser wrth y ffynnon yn malurio; olwyn i godi dŵr o'r pydew yn torri. Yna, gydag ymadrodd sy'n adlais o stori'r Creu yn Genesis 2–3, mynegir tynged anochel dynoliaeth. Bydd y corff yn dychwelyd i'r ddaear y crëwyd ef ohoni a'r 'anadl einioes' a anadlodd Duw iddo'n mynd yn ôl at yr Un a'i rhoddodd.

Daw'r Pregethwr â'i sylwadau i ben gyda'r un arwyddair ag a ddefnyddiodd ar ddechrau'r bennod gyntaf: 'Gwagedd llwyr, gwagedd yw'r cyfan'. Nid bwriad ei sylwadau yw datrys problemau na chynnig ateb i gwestiynau dyrys, ond yn hytrach mynegi rwystredigaethau bywyd daearol.

Nid bod bywyd ei hun yn ofer. Gwnaeth yr awdur hynny'n glir wrth annog mwynhau o fewn rheswm bleserau syml bywyd. Ond mae'n ein harwain i wynebu'r ffaith nad oes 'o dan yr haul' ateb i gwestiynau megis beth yw ystyr bywyd, pam mae'r diniwed yn dioddef, sut y mae'r byd yn gweithio.

**Epilog**

Mae'r adran olaf yn rhannu'n ddwy ran: adnodau 9–11 ac adnodau 12–14. Yn y rhan gyntaf tynnir sylw at weithgarwch yr awdur gan ei bortreadu fel un a chanddo swydd gydnabyddedig o fewn y gymdeithas. Rhydd iddo'r teitl canmoliaethus 'doeth', a'i ddisgrifio fel 'un sy'n dysgu deall i'r bobl'.

Ond mae'r awdur am inni sylweddoli hefyd fod y Pregethwr yn fwy nag athro a llenor. Yn ei ddisgrifiad ohono rhydd bwyslais arbennig ar ei allu beirniadol. Nid cymhwyster i lenydda a chyfathrebu yw unig nodwedd y llyfr. Ceir ynddo hefyd dystiolaeth eglur o ddawn y Pregethwr i fesur a chloriannu ei dreftadaeth lenyddol. Mae'n 'pwyso', yn 'chwilio' ac yn 'gosod mewn trefn' lawer o ddiarhebion, yn ogystal â cheisio 'cael geiriau dymunol' (h.y. addas) a 'chywir' ar gyfer pob achlysur.

Yn ail hanner yr epilog mae'r awdur yn gorchymyn ei ddisgybl, 'fy mab', i beidio ag ychwanegu at y llyfr. Ar wahân i'r ffaith fod 'astudio dyfal' yn waith blinderus, nid oes angen dweud mwy am y pynciau a drafodwyd. Mae ymdriniaeth gynhwysfawr y Pregethwr wedi dweud yr hyn sy'n angenrheidiol. A rhag ofn bod unrhyw amheuaeth ynglŷn â gwerth y gwaith yn dal i lechu ym meddwl y darllenydd, crynhoir neges y llyfr mewn un frawddeg: 'Wedi clywed y cyfan, dyma swm y mater: ofna Dduw a chadw ei orchmynion' (12:13).

**I gloi**

Wrth astudio Llyfr y Pregethwr rydym wedi sylwi ar ddigalondid a rhwystredigaethau'r awdur ynglŷn â bywyd. Yma, cyfyd cwestiynau oesol am ystyr ein bodolaeth a chyfiawnder cymdeithasol. Pa elw sydd i lafurio'n ddiwyd trwy gydol ein hoes? Beth yw pwrpas y cwbl? Pam mae'r diniwed yn dioddef? Ei gri gyson yw mai ofer – i raddau – yw ein bywydau. Ond y mae'n adleisio cwestiynau sy'n cael eu gofyn heddiw yn 2025.

Er mwyn gwneud synnwyr o Lyfr y Pregethwr, mae'n rhaid inni edrych arno yng ngoleuni'r datguddiad bendigedig yn Iesu o natur, meddwl a bwriad Duw. Yn yr Iesu, ei fywyd, ei ddysgeidiaeth a'i waith achubol, ehangir ein gorwelion i weld sut mae Duw a'i deyrnas yn dod â chymod, ystyr, gobaith a goleuni cyfiawnder i'n byd. Ni ellir deall yr Hen Destament heb y Testament Newydd ac ni ellir deall y Newydd heb yr Hen.

Diolch i chi am ddarllen a dilyn a gwersi.

**Be 'dych chi'n feddwl?**

1. Rhowch enghreifftiau o'r ffordd y mae'r Testament Newydd yn ein helpu i ddeall penbleth Llyfr y Pregethwr yn well.

2. I ba raddau y mae'r disgrifiad o eiriau'r Ysgrythur fel 'symbolau' a 'hoelion' sy'n herio yn deffro cydwybod ac yn annog myfyrdod yn wir yn eich profiad chi? (12:11)

Rydym yn cynnig ein diolch a'n gwerthfawrogiad i Alun Tudur am ei waith a'i ofal yn ein tywys drwy Lyfr y Pregethwr yn ystod y flwyddyn hon. Nid tasg hawdd oedd hi, ond cawsom astudiaethau difyr a pherthnasol ganddo. Fe'n hanogodd i ystyried llawer o'r hyn sy'n wagedd yn ein bywydau heddiw fel yng nghyfnod y Pregethwr a sut mae hynny'n ein cymell at y cyflawnder bywyd a geir yng Nghrist. Diolch eto, Alun.

Yn ystod cyfnod yr haf, byddwn yn troi ein golwg eto at Gredo Nicea a'r hyn a geir ynddi ar 1,700 mlwyddiant ei chyfansoddi.

(Gol.)




Cliciwch ar y poster uchod er mwyn gweld yr adnoddau sydd ar y wefan, neu ewch i www.gair.cymru

# YDFIS MENNA BROWN



Wrth ddiolch am Menna, ystyriwch gerflun o waith Sebastian Boyesen. Saif y cerflun ar Ben Rhip, uwchben pentref Llangrannog.

Cawn, gan Boyesen, dehongliad cryf a meddylgar o'r mynach-genhadwr Crannog Sant. Mae ei wisg yn syml, a'i wyneb yn gadarn dyner. Yn ei law dde mae ffon syml a chyffredin; yn ei law chwith mae Beibl, ac wrth ei wregys mae cloch.

### Y ffon

Ffon ymarferol yw hon. Ceir yr argraff, oherwydd y diffyg amlwg o symbolaeth eglwysig, mai ffon - dim ond ffon - yw'r ffon hon. Mae'r ffon seremonïol a welir mor aml yn llaw Dewi Sant yn arwydd o awdurdod a dylanwad eglwysig, ond ffon gerdded cwbl ymarferol sydd gan Grannog Sant, Boyesen. Pobl ymarferol oedd y seintiau cynnar hyn, pobl wedi deall fod gweinidogaeth yn enw Duw yn galw am ddwylo parod yn ogystal â'r tafod tân. Person ymarferol oedd Menna, a diolch i Dduw am hynny. Mae mwy o bobl sydd â'u crefydd yn eu tafodau mewn siarad a dweud nag sydd â'u crefydd yn eu dwylo mewn gwneud - roedd ffydd i Menna yn ffordd o fyw, a gwelwyd ei chyffes mewn cymwynas barod; haelioni a charedigrwydd tawel, di-sôn-amdanynt. Dysgodd gan deulu, capel a chymdogaeth y wers waelodol bwysig hon: da yw dweud, gwell yw gwneud. Bu'n gyfrwng, fel gweinidog, aelod eglwys; fel un o ffyddloniaid Aelwyd Hamdden Caerdydd a Chyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd a thrwch o gymdeithasau a grwpiau eraill - a hefyd fel priod, mam a mam-gu - i ddysgu'r wers hon i eraill. Un brwd ei hegni a'i ffydd, braf ei gwên a'i hwyl, cadarn ei barn a'i chyfeillgarwch oedd Menna. O fod yn ei chwmni, yn arbennig ar yr aelwyd, daeth yn amlwg mewn dim o dro fod ganddi stôr o hiwmor iach. Deuai perl o ddweud pob hyn a hyn, a sawl stori bert. Cadwodd ei direidi clên hyd y diwedd.

### Y Beibl

Mae croes yn yr ysgrepan ar gefn y sant, ond mae Beibl yn ei law. Oes arwyddocâd i hynny tybed? Beth pe bawn yn ystyried y peth fel hyn: mae'r groes ar ei gefn, ond Beibl yn ei law oherwydd bod Gair Duw i'r sant hwn yn 'llusern i'm troed, ac yn oleuni i'm llwybr.' (Salm 119:105) Saif y cerflun heb y tamaid lleiaf o amddiffyn rhag y gwynt a'r glaw, ond saif y cerflun yn gadarn. Mae cerflun efydd Sebastian Boyesen o Grannog Sant yn sefyll ar y pentir uwchben y traeth. Mae wedi sefyll yn y gwynt a'r glaw ers 2012, ond mae pobl ffydd wedi gwrthsefyll – a byddant yn gwrthsefyll hyd byth – gwynt, glaw a phob math o stormydd, oherwydd ein bod yn gwybod mai gair Duw yw goleuni ein bywydau, canllaw ein bodolaeth a chyfeiriad ein taith. Roedd Menna yn gwybod bod hyn yn wir, roedd hi'n byw'r gwirionedd hwn. Mae emyn cyfarwydd yn awgrymu bod bywyd yn daith dros foroedd stormus; ganwyd Menna yn, ac i olwg, sain, arogl a blas y môr. Roedd hi'n gwybod am ei dawelwch llonydd, ac yn gwybod hefyd am ei greulondeb chwerw, ond roedd hi hefyd yn gwybod – ar lefel yr enaid – er y gallai'r môr fod yn 'stormus', fod Duw yn sefyll wrth lyw ein bywyd a'n byw, gan ein tywys trwy'r gwaethaf i'r gorau. Roedd Menna yn gwybod o brofiad am foroedd stormus, ond roedd hi hefyd yn gwybod gwirionedd y geiriau hyn:

> Ar for tymhestlog teithio 'rwyf
> i fyd sydd well i fyw,
> gan wenu ar ei stormydd oll:
> fy nhad sydd wrth y llyw.

### Y gloch

Defnyddir y gloch heddiw i alw addolwyr ynghyd, ond yng nghyfnod y seintiau cynnar hyn, buasai'r gloch yn cael ei chanu i gael a chadw sylw pobl a hynny er mwyn cael pregethu iddynt.

Canwn gloch ein diolch: ni ddaw stŵr na berw'r byd i ymyrryd mwy â Menna. Duw sy'n dal pob tamaid o'n bywyd. Canu cloch hyn o wirionedd, ildio i alwad hyn o wirionedd yw'r allwedd i fywyd: bywyd yma, nawr, a bywyd tu hwnt i'r nawr, yma. Y ffordd orau inni gofio'n deilwng am Menna yw ymroi i fod yn ymarferol ein ffydd a'n cred, i fod yn ddygn ein gobaith, ac i gyhoeddi nad bedd mo diwedd ein byw; nid darfod mo'n darfod ninnau.

*Owain Llŷr*

# Nid D.A. lle gellir gwell

*Deallusrwydd Artiffisial (AI) mewn meddygaeth.*

Erbyn hyn, mae Deallusrwydd Artiffisial (AI) yn chwarae rhan gynyddol bwysig mewn sawl agwedd ar ein bywyd beunyddiol. Fe ddigwydd hyn, efallai, heb fod nifer ohonom yn ymwybodol o hynny. Defnyddir Deallusrwydd Artiffisial (AI) yn y maes meddygol er mwyn cael diagnosis ac er mwyn cael cyngor a chyfarwyddyd i'r meddyg beth fyddai'r driniaeth orau ar gyfer y claf. Ambell dro, gall hyn olygu dewis tyngedfennol rhwng bywyd a marwolaeth.

Pan mae pobl yn gwneud penderfyniadau moesegol rydym yn ystyried goblygiadau'r dewisiadau dyrys yn y dilemma. Yn wahanol i Ddeallusrwydd Artiffisial, mae gennym y gallu i gydymdeimlo (empathi) a'r gallu hefyd i roi ystyriaeth bwysig i gyd-destun sefyllfa'r claf. Mae'r doniau a'r galluoedd hyn wedi eu gwreiddio yn ddwfn yn ein profiadau amrywiol yn ein gorffennol. Mae'n anorfod bod y profiadau gwerthfawr hyn yn gymysg â'n teimladau a'n hemosiynau personol. Ni all unrhyw beiriant efelychu'r rhinweddau dynol.

### Moesegol

Nid yn aml mae dewisiadau moesegol yn rhai du a gwyn. Yn amlach na dim, disgwylir i ni, fel pobl, sicrhau cydbwysedd rhwng rhai o'r egwyddorion cystadleuol hollbwysig fel tegwch, cyfiawnder a beth sydd orau i bawb ar y pryd. Tasg anodd iawn, os nad amhosibl, fyddai rhaglennu'r egwyddorion a'r rhinweddau hyn mewn algorithmau ar gyfer peiriant oeraidd a dideimlad. Does gan beiriant Deallusrwydd Artiffisial mo'r gallu i deimlo na mynegi empathi na'r gallu i iawn amgyffred holl amrywiaethau sensitifrwydd teimladol profiadau dynoliaeth. Erys amheuaeth ac ansicrwydd, er bod modd i Ddeallusrwydd Artiffisial fod o gymorth gwerthfawr, wrth i ni orfod gwneud dewisiadau a phenderfyniadau dyrys ac anodd. Ni all y peiriant ddisodli'r gallu dynol i resymu ynghylch materion moesegol, hyd y gwyddom hyd yma.

Mae peiriannau yn hollol ddibynnol ar y modd maen nhw wedi eu rhaglennu gan algorithmau. Felly mae Deallusrwydd Artiffisial yn gweithredu yn ôl y canllawiau, y rheolau a'r patrymau sydd

*parhad ar y dudalen gefn*

## Barn Annibynnol

# Rhaid condemnio'r bomio yn Iran

Yn fy ysgrif 'Gwleidyddiaeth ac Iesu' ymddangosodd mewn pedwar rhifyn o'r *Tyst* yn ddiweddar, byrdwn a neges yr ysgrif oedd dweud bod Iesu yn erbyn mynd i ryfel, hyd yn oed os na waeth Iesu trwy ei eiriau leisio hynny'n llythrennol. Dangosodd yn eglur trwy yr hyn a ddywedodd a'i ymarweddiad nad oedd am weld yr Iddewon yn codi mewn gwrthryfel yn erbyn y Rhufeiniaid a'i hymerodraeth ormesol ac nad oedd dim yn mynd i ganiatáu iddo wyro oddi ar ei lwybr a'i awr fawr o farw ar y groesbren. Gwyddai mai trwy ei farwolaeth, sef nod ac uchafbwynt ei ddyfodiad y byddai'n tynnu pawb ato'i hun (Ioan 12:33).

### Taith gerdded Brwydr y Preselau

Ar ddydd Sadwrn 21 Mehefin cefais yr hyfrydwch o ymuno yn nhaith gerdded y Preselau, sef taith flynyddol sy'n cofio ac yn dathlu buddugoliaeth 'Brwydr y Preselau' sef yr ymgyrch lwyddiannus i warchod y Preselau, ei hamgylchfyd, iaith a diwylliant yr ardal pan drechwyd y Swyddfa Ryfel trwy ei rhwystro rhag meddiannu'r bryniau yng nghysgod yr Ail Ryfel Byd. Ymgyrch a arweiniwyd gan weinidogion ymneilltuol yr ardal, megis Parry Bach a Jo, ysgolfeistri, beirdd a llenorion. Rhaid dathlu'r fuddugoliaeth 'nenwedig o gofio tristwch y troi allan pan feddiannwyd mynydd Epynt ym Mrycheiniog wyth deg pump o flynyddoedd yn ôl.

Hyfryd oedd cerdded y mur 'Foel Drigarn, Carn Gyfrwy, Tal Mynydd', a chofio am gefndir magwraeth Waldo ym Mynachlogddu fu'n gefn iddo 'ym mhob annibyniaeth barn.' A chofiwn am ei safiad dewr dros heddychiaeth, megis safiadau Niclas y Glais a Thomas Rees, meibion dewr eraill o'r un cynefin. Heb y fuddugoliaeth ni fyddem heddiw yn cael ymweld â chofebau Waldo ar y rhostir ym Mynachlogddu a chofeb Niclas y Glais ar Foel Dyrch nepell o'r fan ble ganwyd ef ym Mhentregalar. Dyma fydd rhai o brif atyniadau cefn gwlad ardal y Preselau adeg Eisteddfod y Garreg Las yn 2026.

### Arswyd y bomio ar fore 22 Mehefin

Fore trannoeth wedyn, o gynnau'r radio, dyna drist oedd deall fod awyrennau awyrlu Unol Daleithiau America wedi bomio safleoedd strategol yn ymwneud â datblygu grym niwclear yn Iran yn ystod y nos dan orchymyn Donald Trump, a hynny'n gwbl ddirybudd. Ac ar y nos Sul, o wrando ar y newyddion ar y rhaglen deledu 231, sef rhaglen newyddion 24 awr y BBC, a chlywed ymateb cynrychiolydd pob gwlad mewn cyfarfod brys y cenhedloedd Unedig yn ymateb i'r bomio, roedd gen i lawer fwy o gydymdeimlad â sylwadau cynrychiolydd Iran nag oedd gennyf o wrando ar sylwadau cynrychiolwyr yr Unol Daleithiau ac Israel. A pheidiwn â chael ein twyllo am y cadoediad y mae Trump yn ymffrostio iddo ei sicrhau o ganlyniad i'r bomio chwaith. Onid arwain at ragor o dywallt gwaed fydd y bomio gorffwyll? 'Bydd pawb sy'n cymryd y cleddyf yn marw trwy'r cleddyf,' meddai Iesu (Mathew 26:52). Dial ar ben dial yw ffordd y byd. Amser a ddengys.

Rhai wythnosau yn ôl ar bererindod gweinidogion Bro'r Preseli hyfryd oedd cael bod wrth ymyl y gofeb i gofio John Dyfnallt Owen ar fynydd y Gwrhyd, ac wrth deithio yn ôl i Glydach galw heibio capel Seion yn y Glais sy'n gysylltiedig â hanes Niclas y Glais a fu'n garcharor cydwybod am brotestio a gwrthwynebu'r rhyfel yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Ac o, fel y byddai rhai o'n cyndeidiau a enwyd yn yr ysgrif hon wedi arswydo, ac oni ddylem ninnau arswydo, protestio a gwrthwynebu hefyd yn wyneb yr hyn sy'n digwydd yn y Dwyrain Canol, ym Mhalesteina, ac oherwydd yr holl ddioddefaint yn Wcráin a mannau eraill.

### Rhaid pwyllo

Fel yr ysgrifennais yn yr ysgrif ar 'Grist yr Andes', sef cerdd gan Dyfnallt, trwy gyfeirio at y cerflun sy'n dal i ddathlu yr heddwch sydd yn Ne America rhwng gwledydd Chile a'r Ariannin, mae'r hanes y tu cefn i gerflun Crist y Prynwr yn yr Andes yn neges heriol i'n dyddiau ni, yn enwedig gyda'r bwriad sydd ar droed i gynyddu gwariant ar amddiffyn i 5% o wariant incwm blynyddol ein gwlad. Mae'n sefyll i reswm beth fydd hynny'n golygu: amlhau cynhyrchu arfau a chwyddo aelodaeth yn y lluoedd arfog. Eithr sobrwn a gwrando ar neges rybuddiol hanes codi'r cerflun – pan fod gwledydd yn pentyrru arfau ac yn chwyddo eu byddinoedd, fod yna berygl gwirioneddol y bydd yr arfau'n cael eu defnyddio, a phobl wrth y miloedd yn cael eu lladd oherwydd y brwydro a'r rhyfela diangen. A neges Waldo – 'Cadwn y mur rhag y bwystfil, cadwn y ffynnon rhag y baw.'

**Emyr Gwyn Evans**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)



# GOFALAETH

## Tabernacl, Hendy-gwyn ar Daf Bethel, Llanddewi Felffre a Triniti, Llanboidy

Gwahoddir ymholiadau a cheisiadau oddi wrth weinidogion ordeiniedig a myfyrwyr sydd â diddordeb i weinidogaethu'n rhan amser yn yr ofalaeth hon. Byddwn yn dilyn canllawiau Undeb yr Annibynwyr.

Cysyllter â'r Ysgrifennydd am fanylion erbyn Gorffennaf 31ain 2025.

**Meryl James**

**E-bost:** meryljames534@btinternet.com

**Ffôn:**(01994) 240350

**Ffôn symudol:** 07977 553796

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Nid D.A. lle gellir gwell – parhad

wedi eu bwydo iddo. Ni allant gydymdeimlo ag ofnau a phryderon cleifion. Disgwylir i feddyg profiadol ystyried cyflwr emosiynol y claf, ei gefndir a'r math o driniaeth mae yn ei ffafrio (os oes yna ddewis). Mae Deallusrwydd Artiffisial yn gwbl ddibynnol ar ddata ac ystadegau o'r gorffennol.



### Canllawiau

O ystyried cryfderau a gwendidau Deallusrwydd Artiffisial mae galw cynyddol am ganllawiau moesegol a pholisïau cyfreithiol ar ran llywodraeth Llundain yn arbennig i reoli datblygiad Deallusrwydd Artiffisial a'r defnydd ohono heddiw ac i'r dyfodol. Mae'n glir bod gan D.A. botensial rhyfeddol i helpu gyda'r tasgau anodd a dyrys wrth i ni orfod gwneud dewisiadau a phenderfyniadau tyngedfennol yn ein bywydau ac yn y byd. Wrth i Ddeallusrwydd Artiffisial gael ei integreiddio fwy a mwy i agweddau o'n bywydau, mae cyfrifoldeb a rheidrwydd arnom i sicrhau bod D.A. yn gwasanaethu egwyddorion a gwerthoedd dynoliaeth a dylem sicrhau na fydd cyfleoedd iddo danseilio ein gwerthoedd dynol amhrisiadwy.

Golyga hyn nad her dechnolegol yn unig yw Deallusrwydd Artiffisial ond her sylweddol o ran ein gwerthoedd moesegol er mwyn ein diogelu rhag cael ein gormesu gan beiriant mecanyddol oeraidd a dideimlad.

*(Seiliedig ar ysgrif gan Mahmoud Khatami, Athro Athroniaeth ym Mhrifysgol Tehran yn* Philosophy Now, *rhifyn 168)*

**Gwilym Wyn, Caerdydd**

# Ni

Cynhaliwyd gwrthdystiad ar y Maes Caernarfon yn ddiweddar yn erbyn y lladdfa annynol sy'n digwydd yn Gaza ar hyn o bryd. Darllenodd Iestyn Tyne ei addasiad o'r gerdd ingol hon sy'n mynegi gwallgofrwydd yr hyn sy'n digwydd. Ysgrifennwyd y gerdd mewn Arabeg gan y bardd Palesteinaidd Ghayath Almadhoun yn 2008 pan oedd Israel yn bomio Gaza. Diolch i Casi Jones am ei thynnu i'n sylw.




Rydym ni, sy'n ddarnau bach ar wasgar, ni, y mae talpiau o'n cnawd yn tywallt o'r awyr fel glaw, yn cynnig ein hymddiheuriadau dwysaf i bawb yn y byd gwareiddiedig hwn – yn ddynion, yn fenywod ac yn blant – am i ni ymddangos yn anfwriadol a heb eu caniatâd yn eu cartrefi. Ymddiheurwn am serio rhannau toredig o'n cyrff ar wynder pur eu cof, am i ni droi ar ei waered ddelwedd y person normal a chyflawn yn eu llygaid hwy, am ein digywilydd-dra wrth ymddangos mor ddirybudd ar fwletinau newyddion a thudalennau'r we a'r wasg, yn noethlymun ar wahân i'n gwaed a'n gweddillion llosg. Ymddiheurwn i'r rhai hynny nad oeddent yn ddigon dewr i edrych yn syth at ein hanafiadau rhag ofn iddynt ddychryn yn ormodol, ac i'r rhai hynny fethodd â gorffen eu swper wedi iddynt weld lluniau newydd ohonom ar y teledu.

Ymddiheurwn am y dioddefaint y bu inni ei achosi i bawb a'n gwelodd felly, yn ddiaddurn, heb unrhyw ymdrech gan neb i'n rhoi yn ôl at ein gilydd neu gael trefn ar ein haelodau cyn inni ymddangos ar eu sgriniau. Rydym yn ymddiheuro hefyd i filwyr Israel, aeth i'r fath drafferth i bwyso'r botymau yn eu hawyrennau a'u tanciau i'n chwythu'n dipiau, ac ymddiheurwn am ba mor hyll oedd ein golwg ni wedi iddyn nhw anelu eu ffrwydron yn syth at ein pennau meddal, ac felly hefyd am yr oriau lawer y byddant yn eu treulio gyda hyn yng nghlinigau seiciatryddion, yn ceisio bod yn ddynol eto, fel yr oedden nhw o'r blaen, cyn ein trawsnewidiad yn dameidiau o gyrff sy'n eu dilyn pryd bynnag y byddant yn ceisio cysgu. Ni yw'r pethau a welsoch ar eich sgriniau ac yn y wasg, a phe gwnaech ymdrech i roi'r darnau at ei gilydd, fel jig-so, fe gaech ddarlun clir ohonom, mor glir nes na allech wneud dim oll.

Ghayath Almadhoun, 2008

*(Cyfieithiad Iestyn Tyne, trwy Saesneg Catherine Cobham yn* Adrenalin, *2017)*

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*